**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 12fed Medi, 2017 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L.Brown, L.Dymock, M.Groucutt, J.Pratt, R. Harris and R. Edwards

Also in attendance County Councillor(s):

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Julie Boothroyd | Head of Adult Services |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |
| Wendy Barnard | Democratic Services Officer |
| Paula Harris | Democratic Services Officer |
| Ian Bakewell | Housing & Regeneration Manager |
| Karen Durrant | Private Sector Housing Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |

**APOLOGIES:**

County Councillor P.Pavia

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Roedd Duncan Marshall, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru [AGGCC] yn bresennol fel sylwedydd.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2017 a'u llofnodi fel bod yn gywir.

4. **Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol - Ansawdd a Llywodraethu mewn iechyd a gofal yng Nghymru**

Eglurwyd bod camddealltwriaeth wedi bod ynglŷn â dyddiad heddiw o ran y cyflwyniad disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru ar Ymgynghoriad y Papur Gwyn 'Addas i’r Dyfodol'.

Cynigiodd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd i gyflwyno'r sleidiau, ond, yn dilyn trafodaeth, cytunwyd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu’r cyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer Dydd Iau, 14eg Medi 2017. Cafodd y trefniadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw eu newid i gyn-gyfarfod am

9.00am ac amser dechrau'r cyfarfod nawr fel 9.30am. Bydd yr eitem newydd hon yn dechrau am 10.00am.

**Casgliadau'r Pwyllgor**

- Gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc, byddai'r cyflwyniad yn cael ei dderbyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar Ddydd Iau, 14eg Medi 2017.

- Cytunwyd, yn dilyn ystyriaeth, y byddai ymateb drafft i'r ymgynghoriad yn barod i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

5. <u>Monitro Cyllideb - Cyfnod 2</u>

**Cyd-destun:**
I dderbyn gwybodaeth am sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn seiliedig ar ddata gweithgarwch ym mis 2.

**Argymhellion y cynigiwyd i'r Cabinet**

i. Bod yr Aelodau'n ystyried gorwariant refeniw net o £164,000.

ii. Mae'r Aelodau'n ystyried gwariant alldro cyfalaf, a ragwelir gan reolwyr gwasanaeth i gytuno â'r gyllideb.

iii. Nododd yr Aelodau bod y lefel isel o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn lleihau'r hyblygrwydd sydd gan y Cyngor yn sylweddol wrth gwrdd â heriau ariannol o setliadau gostyngol a'r angen dilynol i ailgynllunio gwasanaethau.

iv. Nododd Aelodau'r gostyngiad sylweddol yn y balans ysgolion cyffredinol ar ddiwedd 2017/2018 ac yn cefnogi gwaith parhaus gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod gofynion cynllun Ariannu Tecach y Cyngor yn cael eu bodloni a bod y balans ysgolion cyffredinol yn dychwelyd i fod yn bositif cyn gynted â phosib

**Craffu gan Aelodau**

Gofynnodd y Cadeirydd pam roedd y misoedd monitro wedi cael eu newid. Darparwyd gwybodaeth bod newid ymagwedd eleni yn cael ei dreialu. Yn hytrach na chyflwyno adroddiadau chwarterol, bydd y monitro ym Mis 2, Mis 7 ac ar alldro. Mae hyn yn caniatáu mwy o gyfle i Uwch Dimau Rheoli a Thimau Rheoli Adrannol dadansoddi a dylanwadu'n weithredol ar ffigurau. Bydd y monitro'n fwy ystyrlon a rhoddwyd sicrwydd y bydd rheolwyr a swyddogion yn derbyn gwybodaeth fonitro dros dro. Bydd gwelliant arfaethedig i'r cyfleuster cyfriflyfr yn caniatáu i swyddogion ac Aelodau gael gafael ar wybodaeth ariannol ar unwaith mewn 'amser go iawn'.

Eglurwyd bod Mis 7 yn well gan ei fod yn y mis ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd ac felly mae'n fwy cyfleus i Benaethiaid. Gofynnwyd a fyddai Mis 3 yn well na Mis 2, a'r ymateb oedd y byddai'r ddau yn darparu gwybodaeth debyg ond y dewis oedd defnyddio'r dyddiad cynharach er mwyn cael sefyllfa a rhagolygon cychwynnol.

O ran Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc, holwyd a oes digon o arian yn y gyllideb i barhau i ddarparu gwasanaethau os gwnaed cynnydd cyflog yn uwch nag 1%. Eglurwyd bod y cynnydd cyflog posibl yn elfen lai o'r gyllideb ac nid yw'n berthnasol fel y gyllideb ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. O bryder mwy yw'r cynnydd yn y terfynau trothwy cyfalaf ar gyfer gofal oedolion sy'n creu gofyn ar gyllid awdurdodau lleol ar bwynt cynharach, cyfeiriwyd hefyd at effaith yr isafswm cyflog cenedlaethol. Eglurwyd bod grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru na fydd o reidrwydd yn cwmpasu'r cyfanswm atebolrwydd. Cymerir mantais lawn o'r grantiau sydd ar gael ac adlewyrchir y sefyllfa honno yn y rhagolygon. Mae'r her i ddarparu gwasanaethau, o fewn adnoddau cyfyngedig, yn cynyddu bob blwyddyn a dywedwyd bod yna fater cenedlaethol ynglŷn â chyllidebau gofal cymdeithasol oedolion nad ydynt yn gynaliadwy gan ystyried disgwyliad oes gwell.

Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod y gyllideb gofal cymdeithasol oedolion yn cael ei fonitro'n agos i edrych ar yr holl gostau a'u heffaith. Er enghraifft, o ran trothwy cyfalaf, canfuwyd bod cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ne'r sir. Dangosodd dadansoddiad manwl nad oedd y cynnydd yn digwydd o leoliadau ymarfer ond o ran pobl yn hunan-ariannu. Roedd eu cyfalaf wedyn wedi gostwng islaw'r trothwy ac mae'r awdurdod yn cymryd cyfrifoldeb. Mae effaith bellach o gartrefi gofal newydd yn cael eu hadeiladu ac mae pobl yn mudo i'r ardal a allai fod yn hunan-ariannu ac yna'n disgyn islaw'r trothwy cyfalaf sy'n arwain at gostau anrhagweladwy. Ychwanegwyd bod gan yr awdurdod cofnod da o osgoi costau ac mae wedi llwyddo i ddal y galw yn ôl drwy'r model gweithredol presennol.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Aelodau'r Pwyllgor Dethol i'r adroddiad canlynol: http://www.health.org.uk/publication/path-sustainability

Cododd y Cadeirydd y gorwariant o £1m y llynedd a holodd a oes yna gyllid wrth gefn. Cadarnhawyd ei fod wedi bod yn bosibl cael gafael ar gronfeydd corfforaethol wrth gefn ar gyfer ailstrwythuro staff, diswyddiadau ac ati ond nid oes unrhyw gronfeydd wrth gefn o fewn cyllideb yr adran fel mewn rhai cynghorau. Cadarnhawyd bod yr awdurdod yn gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn cyfannol gyda rhai eithriadau lle dadansoddir y waelodlin net cyn edrych ar ailgyflenwi neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Nodwyd er bod gorwariant mewn gofal cymdeithasol, cafodd hyn ei liniaru gan danwariant eraill a ddefnyddiwyd i ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn. Cafwyd sylw nad oedd fawr o gyfle i hwyluso newid gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar 5.08% sy'n dod o fewn canllawiau derbyniol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori na ddylai cynghorau gadw balansau mawr yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad os yw ailddatblygu Parc Mardy ac adnewyddu byngalo'r gofalwr yng Nghanolfan Hamdden y Fenni yn enghreifftiau o wariant cyfalaf. Hysbyswyd y Pwyllgor bod y rhain yn elfennau bach o wariant cyfalaf mewn perthynas â gwasanaethau oedolion sy'n debygol o fod o wahanol brosiectau a chyllidebau.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai cynlluniau hir dymor yn gweld datblygiad y canolfannau iechyd yn yr Hybiau ac ymatebwyd bod y cyngor yn ystyried y rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r gyllideb refeniw ym mis Ionawr/Chwefror sy'n pennu blaenoriaethau a galw heb ei fodloni. Y llynedd, er enghraifft, ystyriwyd ail-osodiad posib ar gyfer Severn View mewn ychydig o flynyddoedd a allai gyflwyno cyfleoedd ar gyfer cydleoli gwasanaethau.

Eglurwyd bod Cilgant Budden yn cael ei rentu oddi wrth Charter Housing.

Gan ystyried datblygu Hybiau fel cyfeiriad strategol, mae gan yr awdurdod eisoes Parc Mardy, Ysbytai Dyffryn Mynwy a Chas-gwent sy'n cynnig darpariaeth integredig. Mae gan Ddyffryn Mynwy ystod o wasanaethau ac ymyrraethau mewn cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae Parc Mardy yn symud i hyb gwbl integredig, e.e. gwasanaethau cof, clinigau o Ysbyty Neville Hall ac elfen sylweddol o ymgysylltu â'r gymuned. Mae ystyriaeth o ddatblygiad Ysbyty Cas-gwent fel canolbwynt ar y gweill ac mae is-hyb yn cael ei ddatblygu ym Mrynbuga gyda chynlluniau tebyg ar gyfer ardal Cil-y-coed i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol.

Dywedodd Aelod y bydd yr ymagwedd hon yn denu’r meddygon gorau i'r ardal. Nododd yr Aelod y gallai fod yn anodd cael mynediad at wasanaethau.

O ystyried adnoddau cyfalaf, hysbyswyd y Pwyllgor Dethol bod Cronfa Gofal Integredig ar gael trwy Bartneriaeth Gwent Fwyaf er mwyn hyrwyddo'r bwriad strategol i ddatblygu hybiau. Yn ychwanegol, mae gan Lywodraeth Cymru arian ar gyfer datblygu gofal sylfaenol. Bydd mwy o gyfleoedd i gael gafael ar gronfeydd cyfalaf y tu allan i raglen gyfalaf y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd nad yw hyb y Fenni yn rhaglen gyfalaf 2017/18 eleni gan nad oes unrhyw gost feintiedig. Bydd gan aelodau reolaeth pan fydd yr eitem hon yn cael ei ychwanegu.

6. **Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn cynnwys gwybodaeth fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (Barn y Swyddog Priodol ynghlwm).**

Penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn cynnwys gwybodaeth fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf [Barn y Swyddog Priodol ynghlwm].

7. **Dyfodol Cynllun Prydlesu Preifat: Adroddiad Dilysrwydd Dyladwy ac Opsiynau**

**Pwrpas**

Mae cytundeb y Cyngor gyda Melin Homes i reoli'r Cynllun Prydlesu Preifat yn dod i ben ym Mehefin 2018. Pwrpas yr adroddiad yw gwneud y Pwyllgor yn ymwybodol o ganfyddiadau ymarfer astudrwydd dyladwy ac ystyried yr opsiynau ar gyfer dyfodol rheoli'r cynllun. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid llety dros dro Llywodraeth Cymru a'i berthnasedd i'r Cynllun Prydlesu Preifat.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 12fed Medi, 2017 at 10.00 am**

**Materion Allweddol**

- O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ymateb i ddigartrefedd ac atal digartrefedd, ill dau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i gyflawni'r dyletswyddau cysylltiedig yn y sector rhentu preifat. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n flaenoriaeth i gryfhau gweithgarwch atal, gan gynnwys ymgysylltu â landlordiaid preifat i alluogi mynediad i'r llety preifat fel dewis arall yn hytrach na dibynnu ar dai cymdeithasol a'r angen i ddefnyddio llety gwely a brecwast.

- Mae'r Cyngor wedi gweithredu Cynllun Prydlesu Preifat ers dros ddeng mlynedd. Fe'i sefydlwyd i ddechrau oherwydd diffyg tai cymdeithasol. Mae'r cynllun yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac yn helpu lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast. Trosglwyddwyd y Cynllun Prydlesu Preifat i Melin Homes yn 2009 ar ôl i'r tendr gael ei gynnig. Daw hyn i ben ym mis Mehefin 2018. Bellach mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â dyfodol y Cynllun Prydlesu Preifat ac mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer diwedd y contract ac yn ymgymryd â phroses o astudrwydd dyladwy. Gweler Atodiad 1. Nid yw Melin bellach yn dymuno rheoli'r cynllun, yn rhannol, oherwydd newidiadau Diwygio Lles.

- O berthnasedd y penderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau o fis Ebrill 2017 i gael gwared ar y gallu i hawlio cymhorthdal ffi rheoli llety dros dro o £60 yr wythnos, trwy fudd-dal tai. Mae Llywodraeth Cymru wedi disodli hyn gyda'r Grant Cymorth Cyfradd ychwanegol.

- Er bod y Cyngor yn ceisio’n barhaol i gael mynediad i gyfleoedd rhent preifat, mae'r gallu i ddarparu'r nifer angenrheidiol o eiddo yn gyfyngedig am nifer o resymau, gan gynnwys:

  - Fel arfer, mae ymgeiswyr digartref yn gartrefi incwm isel ac yn derbyn budd-dal.
  - Mae asiantaethau Gosod a landlordiaid yn aml yn amharod i dderbyn aelwydydd sydd ar fudd-daliadau.
  - Ni all llawer o gartrefi fforddio cwrdd â rhenti lleol a chostau'r sector preifat o flaen llaw. Dim ond gallu cyfyngedig sydd gan y Cyngor i gefnogi yn hyn o beth.
  - Mae aelwydydd sy'n agored i niwed yn aml yn cael eu canfod, yn aml yn anghywir, fel perygl i landlordiaid.
  - Mae rhai teuluoedd ag anghenion cymhleth yn anodd lletya mewn unrhyw sector.

- Mae'r opsiynau canlynol, sydd wedi'u gwerthuso'n llawn yn Atodiad 1, ar gael:

  - Opsiwn 1 - Trosglwyddo yn ôl i'r Cyngor a pharhau i weithredu wrth geisio cadw, ond ail-drafod, gyda landlordiaid. Byddai'r Cynllun Prydlesu Preifat yn gweithredu ochr yn ochr â'r Cynllun Tai a Rennir. Ystyrir Opsiwn 1 yw'r opsiwn mwyaf priodol er mwyn cyflawni’r dyletswyddau statudol yn fwyaf effeithiol. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad Gosodiadau Mynwy.
  - Opsiwn 2 - Trosglwyddo'n ôl i'r Cyngor a therfynu'r cynllun mewn camau. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar atal digartrefedd oherwydd diffyg tai cymdeithasol ac opsiynau tai eraill. Byddai hefyd yn niweidiol i ymgeiswyr a bydd costau eraill yn codi, megis llety gwely a brecwast a gwariant sy'n gysylltiedig ag Atal.
  - Opsiwn 3 - Nodi darparwr newydd, er y credir na fydd fawr o ddiddordeb oherwydd natur unigryw'r gwasanaeth. Yn yr un modd, ystyrir bod y Tîm Opsiynau Tai yn y sefyllfa orau i reoli'r Cynllun Prydlesu Preifat yn uniongyrchol oherwydd yr angen am yr hyblygrwydd mwyaf, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed.

**Argymhellion:**

- Ystyried sut mae'r Cynllun Prydlesu Preifat yn cefnogi teuluoedd sy'n cael mynediad ato, dyletswyddau'r Cyngor mewn perthynas â digartrefedd, cyfrifoldebau eraill (e.e. Diogelu'r Cyhoedd) ac i ystyried goblygiadau'r gyllideb i'r Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau am ddarpariaeth barhaol o lety dros dro, yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 ac i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad pellach cyn gynted ag y bo modd.
- Parhau i weithio gyda Melin Homes a pharatoi ar gyfer diwedd y contract prydlesu preifat ym mis Mehefin 2018, gan gynnwys ceisio lleihau neu ddileu costau lle bynnag y bo modd.
- Parhau i weithredu'r broses o astudrwydd dyladwy yn cynnwys rhoi sylw arbennig i ôl-ddyledion rhent a chyflwr eiddo.

**Craffu gan Aelodau:**

Craffodd yr Aelodau ar yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Rheolwr Tai ac Adfywio a'r Rheolwr Tai Sector Preifat. Siaradodd y Cynghorydd Sir R. Greenland fel Aelod o'r Cabinet.

**Casgliadau'r Pwyllgor**

Cafodd yr adroddiad ei graffu, a rhoddwyd sylw i fewnbwn yr Aelod Cabinet.

Cytunwyd ar yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**8. Camau Gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol.**

- **Camau Gweithredu:** Mewn perthynas â phwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol, trafodwyd bod ymatebion yn aml yn cael eu hanfon at Aelodau'r Pwyllgor yn unigol, neu fel grŵp, ac felly nid ydynt yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Dethol. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, cytunwyd y dylid cynnwys y fath wybodaeth yn y Rhestr Weithredu o nawr ymlaen. Cytunwyd ymhellach y dylid hysbysu Swyddogion y bydd unrhyw wybodaeth y maent yn ei darparu, mewn ymateb i bwynt gweithredu, yn eiddo cyhoeddus.

- **Adroddiad Perfformiad 2016/17:** Cytunwyd y dylai'r tabl isod, y darparwyd ar ôl y cyfarfod diwethaf gyda'r nifer o bobl sy'n dod i ofal preswyl yn ystod y flwyddyn a'r canrannau'r cyfan, gael ei gyhoeddi yn y cofnodion:

| Grwpiau Oedran | # y bobl sy'n dod i ofal iechyd yn y flwyddyn | % o bobl ym mhob grŵp oedran |
|---|---:|---:|
| **18-64** | 16 | 15% |
| **65-74** | 6 | 6% |
| **75-84** | 25 | 24% |
| **85+** | 57 | 55% |
| **Cyfanswm** | **104** | **100%** |

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 12fed Medi, 2017 at 10.00 am**

- **Tai Fforddiadwy:** Mynegwyd pryder ynghylch enghraifft lle prynwyd 2 o 20 o dai fforddiadwy ar ddatblygiad yn fuan ar ôl eu dyrannu. Gofynnwyd a fyddai hyn yn lleihau nifer y tai fforddiadwy a ddarperir. Cafodd y meini prawf cymhwyster ar gyfer amgylchiadau o'r fath eu cwestiynu gan fod tai fforddiadwy ar gyfer pawb ac na ddylid eu gwerthu. Gofynnwyd a oedd nifer y tai a werthwyd wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cartrefi fforddiadwy.

  Roedd cwestiwn arall yn canolbwyntio ar argaeledd dyraniadau cyllid adran 106 hamdden ac adran 106 addysg. Nodwyd bod tai fforddiadwy bron bob amser yn cael eu dyrannu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cadarnhawyd bod ceisiadau ar gyfer adran 106 yn ystyried y math o dai fforddiadwy. Eglurwyd pe bai unrhyw beth yn gwyro o'r fforddiadwyedd, caiff meini prawf eu monitro.

  Roedd Aelod am sicrhau bod tai fforddiadwy yn wirioneddol i bobl leol a'u bod yn cael blaenoriaeth yn y dyraniad cyntaf. Eglurwyd bod y polisi dyraniadau gwledig yn berthnasol, sy'n defnyddio meini prawf cymhwysedd caeth iawn er mwyn sicrhau bod anheddau yn cael eu dyrannu i bobl leol.

  Awgrymwyd bod Cadeirydd Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf yn nodi'r drafodaeth.

**9. Blaen-raglen Waith y Pwyllgor Dethol Oedolion**

Derbyniwyd a nodwyd y Blaen-raglen Waith.

**10. Blaen-raglen Waith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd Blaen-raglen Waith y Cyngor a'r Cabinet Atgoffwyd yr aelodau bod y Cynllun yn cael ei ddiweddaru bob wythnos a'i ddosbarthu bob dydd Gwener.

**11. I gadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf fel ar y 24ain Hydref 2017 am 10.00am**

**The meeting ended at 12.05 pm**